# Disgrifiad Swydd: Swyddog Codi Arian

Mae swyddog codi arian yn goruchwylio strategaeth codi arian y clwb Yn aml iawn bydd angen cronfeydd ychwanegol ar glwb, yn enwedig os yw'n cynilo arian am brosiect newydd neu sefydlu tîm newydd neu adran iau. Mae'r swydd yn cynnwys dyletswyddau eang, o drefnu achlysuron cymdeithasol i lenwi ffurflenni cais am grant i drafod nawdd gyda busnesau lleol.

**Sut byddwch chi'n elwa o'r swydd?**

- Ymdeimlad o hunan gyflawniad a rhoi yn ôl i'r gymuned
- Swydd allweddol yn eich cymuned
- Cwrdd â llawer o bobl o wahanol gefndiroedd
- Cyfle i ddatblygu sgiliau
- Datblygiad gyrfa posibl / cyflogadwyedd gwell
- Potensial i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau newydd

**I bwy y byddaf i'n atebol?**

- Y Trysorydd

**Pwy fydd yn atebol i mi?**

- Trefnwyr iau (os ydyn nhw'n rhan o ymdrechion codi arian)

**Yn ddelfrydol, bydd angen i chi fod:**

- Yn hyderus ac yn hawdd siarad â chi
- Yn frwdfrydig gyda gwybodaeth dda am weithgareddau'r clwb
- Yn gyfathrebwr cryf
- Yn ddarbwyllol
- Yn drefnus ac yn gallu trefnu digwyddiadau a gweithgareddau eraill
- Â phrofiadol o ran sgiliau cyfrifiadurol
- Â diddordeb neu brofiad o ran creu incwm ychwanegol

**Yr hyn y byddwch chi'n ei wneud:**

- Nodi ffynonellau cyllid mewn cydweithrediad â chynllun datblygu'r clwb
- Siarad â / chreu perthynas â busnesau lleol a darparwyr cyllid
- Datblygu cynigion nawdd
- Trefnu gweithgareddau codi arian arloesol i gynhyrchu incwm
- Archwilio cyfleoedd grant a chwblhau ffurflenni cais, ynghyd ag aelodau o Bwyllgor y Clwb gan gynnwys y Cadeirydd
- Cysylltu â'r Swyddog Marchnata i sicrhau bod unrhyw newyddion am grantiau, nawdd neu ymdrechion godi arian yn derbyn cyhoeddusrwydd da

**Faint o amser y bydd yn ei gymryd?**

- Tua dwy awr yr wythnos, er y bydd adegau lle na fydd angen i chi gyfrannu tra byddai wythnosau eraill yn gofyn am lawer mwy o ymrwymiad (er enghraifft, yn yr wythnosau yn arwain at achlysur i godi arian).

**Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso ichi gysylltu â:**
(*Rhowch fanylion cyswllt y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd yma*)